

Arolygiadau â Phwyslais Penodol ar Ganolfannau Brechu Torfol (Dirybudd)

Ysbyty Enfys Bangor, Bangor

Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi

Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 11 – 12 Mawrth
2021

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mai 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiadau â phwyslais penodol	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	11
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	15
4.	Beth nesaf?	17
5.	Sut rydym yn arolygu canolfannau brechu torfol	19
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol	20
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	21
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiadau â phwyslais penodol o ddwy ganolfan brechu torfol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 11 Mawrth 2021 a 21 Mawrth 2021. Ymwelwyd â'r canolfannau canlynol:

- Ysbyty Enfys Bangor, Heol Ffriddoedd, Bangor LL57 2EH
- Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy, Chester Rd W, Queensferry, Glannau Dyfrdwy CH5 1SA

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiadau â phwyslais penodol yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygwr cymheiriaid clinigol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau roedd y gwasanaethau yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau â phwyslais penodol o ganolfannau brechu torfol yn Adran 5.

2. Crynodeb o'n harolygiadau â phwyslais penodol

Roedd hi'n amlwg bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud gan y bwrdd iechyd, a hynny'n gyflym, er mwyn darparu amgylcheddau dros dro ac adnoddau digonol i gyflawni ei raglen brechu torfol. Gwelsom fod strwythurau rheoli clir ar waith i oruchwylio gweithrediad diogel y rhaglen.

Cawsom sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer pob cam o'r broses frechu, a bod gofal diogel yn cael ei ddarparu i'r cleifion.

Roedd amrywiaeth wych o fesurau atal a rheoli heintiau ar waith i helpu i leihau'r risg o haint ac i gadw'r cleifion a'r staff yn ddiogel.

Darparodd y cleifion a gwblhaodd arolwg AGIC adborth cadarnhaol iawn ar eu profiadau yn y canolfannau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y gwirfoddolwyr a'r staff clinigol yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a pharchus
- Roedd y cleifion yn cael eu hasesu am symptomau COVID-19 cyn caniatáu iddynt ddod i mewn i'r canolfannau
- Roedd y cleifion o'r farn y gallent gynnal eu hurddas, eu preifatrwydd, a'u gwedduster yn ystod eu hapwyntiad
- Cafodd y cleifion asesiadau priodol a digon o wybodaeth cyn cael eu brechu
- Roedd trefniadau addas ar waith i reoli brechlynnau COVID-19 yn ddiogel
- Roedd system effeithiol ar waith i baratoi a rhoi'r brechlyn mewn modd amserol
- Roedd y brechwyr wedi cwblhau'r gofynion hyfforddiant perthnasol er mwyn bod yn gymwys i roi'r brechlynnau i'r cleifion

- Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar dadebru brys er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w ddefnyddio
- Roedd y staff yn teimlo bod yr uwch-staff yn eu cefnogi.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r amseroedd aros i'r cleifion gael eu monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw cyn fyrred â phosibl
- Dylai rotâu'r staff gael eu trafod mewn modd mwy amserol a thryloyw.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae'r bwrdd iechyd wedi gweithio'n gyflym i gynllunio a chyflwyno rhaglen brechu torfol ar draws y rhanbarth i'r grwpiau blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Sefydlwyd ysbytai maes 'enfys'¹ dros dro yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint, Venue Cymru yn Llandudno a chanolfan chwaraeon prifysgol ym Mangor yn y flwyddyn ddiwethaf er mwyn diogelu prif ysbytai'r ardal rhag cael eu gorlethu yn ystod y pandemig. Cafodd y tri safle hyn eu haddasu i fod yn ganolfannau brechu torfol ac maent wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2021.

Roedd y canolfannau brechu torfol yn rhan o nifer o fodolau cyflwyno a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd i roi brechlynnau, ochr yn ochr â'r defnydd o feddygfeydd a chanolfannau brechu lleol. Roedd oddeutu 271,000 o frechlynnau wedi'u rhoi yng Ngogledd Cymru o gwmpas adeg yr arolygiadau â phwyslais penodol. Roedd y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw'n rhoi ail ddosau o frechlyn Pfizer-BioNTech i'r cleifion.

¹Cafodd y tri ysbyty dros dro a sefydlwyd ar draws Gogledd Cymru eu hail-enwi ar ôl symbol o obaith yr enfys, a ddaeth yn gyfystyr â'r ymateb i'r achosion o COVID-19.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom wahodd defnyddwyr gwasanaeth i gwblhau arolwg ar eu profiadau, er mwyn sicrhau bod safbwynt y defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i'n dull o arolygu. Gwnaethom edrych i weld a oedd cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac a oeddent yn cael gwybodaeth amserol a hawdd cael gafael arni.

Gwnaethom wahodd y cleifion a oedd wedi cael eu brechlyn mewn canolfannau brechu torfol i gwblhau arolwg ar-lein am eu profiadau. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo gan bosteri yn y canolfannau y gwnaethom ymweld â nhw a thrwy gyfryngau cymdeithasol AGIC. Cafodd cyfanswm o 156 o arolygon eu cwblhau gan gleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gyda bron pob un o'r ymatebwyr yn nodi y bu eu profiad yn rhagorol. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael gohebiaeth glir gan y bwrdd iechyd cyn eu hapwyntiad.

Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod y mesurau rheoli heintiau wedi'u dilyn yn dda lle y bo'n briodol, er enghraifft cadw pellter cymdeithasol, defnyddio hylif diheintio dwylo a defnyddio masgiau wyneb. At hynny, dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y canolfannau'n lân ac yn daclus.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod llif y cleifion yn ystod y dydd yn effeithlon ac yn amserol yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion a gwblhaodd arolwg AGIC wrthym eu bod wedi cael profiadau o oedi hir cyn derbyn eu brechlyn yn ystod y diwrnodau cyntaf ar ôl i'r canolfannau agor. At hynny, dywedodd bron hanner yr ymatebwyr eu bod wedi gorfod aros dros 30 munud cyn cael eu gweld. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro'r amseroedd aros i sicrhau eu bod yn cael eu cadw cyn fyrred â phosibl.

Gwnaethom sylwi bod angen i'r cleifion sefyll mewn ciw byr cyn cael eu hebrwng i'r man brechu. Yn dilyn adborth y cleifion am yr oedi posibl, gallai'r bwrdd iechyd ystyried cynnig cadeiriau i'r cleifion sydd eu hangen yn ystod adegau mwy prysur.

Gwnaethom arsylwi ar y gwirfoddolwyr a'r staff clinigol yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a pharchus bob amser yn ystod ein dau arolygiad â phwyslais penodol.

Defnyddiodd yr ardaloedd brechu yn y ddwy ganolfan yr isadeiledd oedd wedi'i osod ar gyfer eu diben blaenorol fel ysbytai maes. Roedd pob man brechu yn y

Ileoedd oedd wedi'u clustnodi ar gyfer gwely ysbyty, a olygai bod digon o le rhwng y manau brechu. Yn ogystal, roedd sgriniau preifatrwydd ar gael i roi preifatrwydd i'r cleifion ac i ddiogelu eu cyfrinachedd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd arolwg AGIC wrthym eu bod yn teimlo y gallent gynnal eu preifatrwydd, eu hurddas a'u gwedduster yn ystod eu hapwyntiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro'r amseroedd aros i'r cleifion yn y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn cael eu cadw cyn fyrred â phosibl.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod y cleifion yn cael gwybod gan y staff beth i'w wneud ar bob cam o'u taith trwy'r canolfannau y gwnaethom ymweld â nhw.

Gwelsom fod fersiynau hawdd eu darllen o wybodaeth allweddol ar gael a dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn iaith arall heblaw Cymraeg neu Saesneg. Gwelsom fod y cleifion yn cyrraedd gyda cherdyn a oedd yn cofnodi enw a dyddiad eu brechlyn cyntaf. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael taflenni gwybodaeth ar ôl eu brechlyn cyntaf sy'n rhoi gwybod i'r cleifion am y sgil-efeithiau posibl a phryd i ofyn am help.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd arolwg AGIC eu bod yn hapus â'r ffordd y cafodd pethau eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod wedi cael cyngor ar ofal dilynol ar beth i'w wneud pe byddent yn cael adwaith niweidiol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae'r canolfannau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd hi'n amlwg bod cryn waith cynllunio a pharatoi wedi'i fuddsoddi yn y broses o drawsnewid y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw. Darparwyd asesiadau risg amgylcheddol a thân a gynhaliwyd yn y canolfannau brechu torfol yn y bwrdd iechyd i helpu i sicrhau bod y safleoedd yn ddiogel ac yn addas at eu diben. Gwelsom fod cynlluniau gwacáu ar waith yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw, ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod pwy oedd y swyddogion tân dynodedig ar gyfer y sifft honno, a beth i'w wneud petai argyfwng.

Roedd aelodau o staff y tu allan i'r ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw er mwyn cadw'r safle yn ddiogel. Gwnaethom arsylwi ar y staff yn croesgyfeirio'r ymwelwyr yn erbyn rhestr o apwyntiadau ar gyfer y diwrnod i sicrhau mai dim ond y bobl ag awdurdod allai fynd i mewn i'r canolfannau.

Gwelsom fod y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw'n darparu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol diogel a bod systemau un ffordd glir ar waith er mwyn i'r cleifion a'r staff lywio'u ffordd drwy'r lleoliadau. Roedd yr ardaloedd brechu yn olau, yn lân ac roedd digon o le ynddynt.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom amrywiaeth wych o fesurau atal a rheoli heintiau ar waith yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw i helpu i leihau'r risg o haint a chadw'r cleifion a'r staff yn ddiogel.

Roedd y staff wrth y mynedfeydd yn asesu'r cleifion am symptomau COVID-19 cyn eu gadael i mewn. Atgoffwyd y cleifion hefyd o'r angen i wisgo masg oni bai eu bod wedi'u heithrio rhag gwneud hynny. Roedd poteli o hylif diheintio dwylo ar gael wrth y mynedfeydd ac mewn manau amrywiol ar hyd a lled y canolfannau er mwyn annog hylendid dwylo da.

Gwnaethom arsylwi'r staff clinigol yn gwisgo masgiau ac yn diheintio eu dwylo rhwng cleifion. Roedd nifer o gyfleusterau golchi dwylo ar gael i'r staff yn yr ardaloedd brechu. Roedd y staff clinigol yn glanhau eu man brechu a'r cadeiriau

rhwng pob claf, a gwelsom y staff yn sychu'r cadeiriau ar ôl i'r cleifion adael yr ardaloedd aros.

Gwelsom fod archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd yn cael eu cynnal i fonitro cydymffurfiaeth. Dywedwyd wrthym fod gwaith yn cael ei wneud i wella ymhellach ar restrau archwilio atal a rheoli heintiau i sicrhau eu bod yn cael eu teilwra i amgylchedd y ganolfan brechu torfol. Roedd blwch golau uwchfioled² ar gael ym Mangor i dynnu sylw at unrhyw broblemau hylendid dwylo, nodwyd gennym fod hyn yn arfer dda.

Dywedwyd wrthym fod rhaid i'r holl staff clinigol fod wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyn cychwyn ar eu rôl fel brechwr yn unrhyw un o'r canolfannau brechu torfol ar draws y bwrdd iechyd.

Rheoli meddyginiaethau

Darparwyd y ddogfen Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion i roi Brechlyn Pfizer-BioNTech COVID-19 i ni a oedd yn rhoi'r canllawiau a'r fframwaith i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn cyrraedd y gofynion rheoleiddio a deddfwriaethol o ran rheoli'r defnydd o'r brechlyn. Cefnogwyd hyn gan amrywiaeth o weithdrefnau safonol eraill yn ymwneud â danfon, storio, paratoi a gwaredu.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw er mwyn rheoli brechlynnau COVID-19 yn ddiogel. Roedd y brechlynnau'n cael eu storio'n briodol mewn oergelloedd wedi'u cloi mewn ystafell ar wahân. Roedd darlleniadau tymheredd pob oergell yn cael eu cofnodi gan y staff a'u huwchlwytho i System Imiwneiddio Cymru electronig er mwyn i gydweithwyr y fferyllfeydd eu monitro.

Bydd y staff clinigol yn casglu ffiol newydd ac yn cofnodi manylion perthnasol y brechlyn a'r teneuydd (y gwneuthurwr, rhif y swp a'r dyddiad dirwyn i ben) ar ffurflen olrhain y brechlyn, ynghyd ag amser yr ailgyfuniad. Wedyn, trosglwyddwyd y manylion hyn i'r staff gweinyddol eu cofnodi ar System Imiwneiddio Cymru wrth i'r cleifion gael eu brechu. Gwnaethom nodi bod y system i weld yn gweithio'n dda yn y ddwy ganolfan.

²Mae Blwch Golau Uwchfioled yn tynnu sylw at ddiffygion gyda thechnegau golchi a sgrwbio dwylo i godi ymwybyddiaeth o broblemau hylendid dwylo posibl.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod cyfarpar dadebru brys ac adrenalin³ ar gael yn y ddwy ganolfan er mwyn darparu triniaeth ar frys petai rhywun yn cael adwaith anaffylactig⁴ neu ataliad y galon ar ôl cael ei frechu. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant mewn triniaeth cynnal bywyd sylfaenol ac roedd yr uwch aelodau o staff clinigol wedi cael hyfforddiant mewn cynnal bywyd canolradd. Dywedwyd wrthym fod aelod o staff wedi'i hyfforddi mewn cynnal bywyd canolradd ar gael ar bob sifft a byddai'r staff ond yn cyflawni sgiliau ac yn defnyddio cyfarpar a oedd yn syrthio o fewn eu galluoedd mewn achos o argyfwng. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cafodd ein hadolygydd cymheiriaid clinigol ganiatâd gan rai o'r cleifion a'r staff i arsylwi'r gofal a roddir i'r cleifion yn y man brechu. Cawsom sicrwydd yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw fod y cleifion yn derbyn asesiadau priodol i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y brechlyn a bod y cleifion yn cael y wybodaeth gywir i roi caniatâd deallus cyn derbyn eu brechlyn.

Gwelsom fod ardaloedd dadebru wedi'u sefydlu yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw i ddarparu triniaeth a phreifatrwydd i gleifion sy'n teimlo'n anhwylyd. Roedd troliau niferus ar gael i sicrhau bod modd symud cleifion i ffwrdd o'r ardal aros. Roedd adrenalin ar gael ym mhob man brechu er mwyn gallu ei roi'n gyflym mewn argyfwng.

Cadw cofnodion

³Meddyginiaeth a ddefnyddir i drin sioc ddifrifol yw adrenalin a gynhyrchir drwy adwaith alergaidd difrifol neu gwmp.

⁴Mae adwaith anaffylactig yn adwaith alergaidd difrifol a allai beryglu bywyd. Gall ddigwydd ymhen eiliadau neu funudau o gymryd meddyginiaeth.

Gwelsom yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw fod y staff gweinyddol yn gyfrifol am gofnodi manylion yn electronig ar System Imiwneiddio Cymru ar bob brechlyn a roddwyd, fel hanes meddygol y cleifion a gwybodaeth am y brechlyn a roddwyd. Mae'r system a ddatblygwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn galluogi'r bwrdd iechyd i dderbyn gwybodaeth am swm y brechlynnau a ddanfonwyd i olrhain cynnydd y rhaglen frechu ac i fonitro nifer y cleifion sy'n ei gymryd.

Gwnaethom arsylwi trafodaethau clir rhwng y staff clinigol a'r staff gweinyddol mewn perthynas â chyfathrebu'r wybodaeth am y brechlynnau yr oeddent wedi'u rhoi a dywedwyd bod y system wedi bod yn gweithio'n dda.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r canolfannau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Cyn yr arolygiadau â phwyslais penodol, gwnaethom ofyn am dystiolaeth a gwybodaeth gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â rheolaeth y rhaglen frechu. Cafodd y gweithdrefnau safonol eu darparu i ni a nododd y trefniadau oedd ar waith i sicrhau bod rhaglen frechu COVID-19 yn cael ei chyflawni ar draws y bwrdd iechyd. Cwmpasodd y ddogfen bob agwedd ar y broses frechu a welsom yn cael ei rhoi ar waith yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw.

Yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, cawsom sicrwydd fod strwythurau rheoli clir ar waith. Roedd yr uwch-staff clinigol yn goruchwylio'r gwaith clinigol yn y ddwy ganolfan a'r arweinwyr project yn goruchwylio materion anghlinigol. Gwnaethom arsylwi ar drafodaethau agored rhwng y staff hynny yn ystod ein hymweliadau ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a dywedwyd wrthym fod y strwythur yn gweithio'n dda.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Yn dilyn ein trafodaethau ag uwch aelodau o'r staff, roedd hi'n amlwg bod nodi gweithlu, sicrhau bod gweithlu ar gael a mynediad i leoliadau addas yn heriau parhaus i'r bwrdd iechyd. Yn sgil natur newidiol gyflym y rhaglen frechu, roedd y staff yn cael eu hadleoli yn aml i ddarparu adnoddau ychwanegol lle bo angen. Er gwaetha'r heriau hyn, gwelsom fod nifer briodol o wirfoddolwyr, staff gweinyddol a chlinigol ar y safle yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol i gyflwyno'r brechlynnau oedd wedi'u trefnu ar y diwrnodau hynny'n ddiogel. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn y ddwy ganolfan hefyd eu bod wedi teimlo'u bod wedi cael eu cefnogi gan yr uwch aelodau o'r staff wrth gyflawni eu rôl ar hyd y broses frechu hyd yma.

Cyfrifoldeb yr uwch-staff clinigol oedd trefnu'r rotâu staffio yn y ddwy ganolfan i'w rheoli'n lleol. Dywedodd rhai aelodau o'r staff yng Nglannau Dyfrdwy y gellid gwella'r broses o gyfathrebu ar amrywiol agweddau ar y rotâu. Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom drafod y materion hyn gyda'r uwch-aelodau o'r staff a roddodd ystyriaeth i'r rhain, a gwnaethant gytuno i adolygu'r system gyfredol er mwyn ei gwneud yn fwy amserol a thryloyw.

Gwnaethom siarad â'r uwch aelodau o'r staff ym mhob canolfan am y mesurau sydd ar waith i sicrhau bod y staff clinigol yn darparu triniaeth ddiogel. Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r brechwyr sy'n gweithio yn y canolfannau yn y bwrdd iechyd yn staff clinigol cofrestredig. Byddai unrhyw frechwyr heb eu cofrestru'n cael brechwr cofrestredig wedi'i neilltuo iddynt er mwyn goruchwyllo bob agwedd ar eu rôl. Datblygwyd amserlen hyfforddi lawn ac roedd yn rhaid i'r goruchwylwyr a neilltuwyd asesu bod pob brechwr yn gymwys gan ddefnyddio adnodd asesu⁵ cymhwysedd brechwyr COVID-19 cyn gallu brechu heb oruchwyliaeth.

Cawsom wybod bod 'sgrymiau diogelwch' byr yn cael eu cynnal bob bore er mwyn i'r uwch-aelodau o'r staff clinigol drafod pwyntiau allweddol, materion a champau gweithredu â'r staff. Caiff staff sy'n cyrraedd ar gyfer sifftiau hwyrach eu diweddarau'n unigol ar yr un materion gan yr uwch-aelodau o'r staff clinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am rotâu yn cael ei chyfleu'n amserol ac yn dryloyw i'r staff sy'n gweithio yn y naill ganolfan brechu torfol a'r llall.

⁵ [Adnodd asesu cymhwysedd brechwyr COVID-19](#)

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiadau â phwyslais penodol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws canolfannau brechu torfol eraill yn y bwrdd iechyd. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau o atodiadau A, B ac C.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu canolfannau brechu torfol

Byddwn fel arfer yn rhoi rhywfaint o rybudd o'n harolygon â phwyslais penodol o ganolfannau brechu torfol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn dweud wrth y bwrdd iechyd y byddwn yn ymweld â nifer o ganolfannau yn ystod cyfnod penodol o amser, ond ni fyddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth. Yna gall y bwrdd iechyd baratoi rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen arnom ymlaen llaw. Mae hyn yn golygu y gallwn dreulio llai o amser ar y safle, ac felly bydd yr arolygiad â phwyslais penodol yn amharu cyn lleied â phosibl ar y cleifion a'r staff.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad â phwyslais penodol, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae'r canolfannau yn cyrraedd rhannau perthnasol o [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau â phwyslais penodol hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn canolfannau brechu torfol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod y naill arolygiad â phwyslais penodol na'r llall.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Canolfannau: Ysbyty Enfys Bangor ac Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy

Dyddiad arolygu: 11 – 12 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol ar y naill arolygiad â phwyslais penodol na'r llall.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Canolfannau: Ysbyty Enfys Bangor ac Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy

Dyddiad arolygu: 11 – 12 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro'r amseroedd aros i'r cleifion yn y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn cael eu cadw cyn fyrred â phosibl.	4.1 Gofal ag Urddas	Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy Mae aelod o'r tîm yn sefyll y tu allan fel mater o drefn i gyfarch y cleifion a monitro'r ciwiau. Mae trothwy wedi'i nodi i agor lonydd ychwanegol h.y. os bydd ciw yn ymestyn y tu hwnt i'r cysgodfan (mwy na 30 o bobl yn aros y tu mewn a thu allan) Bydd y nyrs â chyfrifoldeb yn monitro'r ciwiau yn rheolaidd. Mae'r niferoedd sydd heb fynychu yn cael eu monitro drwy gydol y dydd a chynigir apwyntiadau ychwanegol yn ystod y dydd os	Thomas Halpin	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>bydd y niferoedd sydd heb fynychu'n uchel er mwyn atal derbyn llawer o bobl ar yr un pryd.</p> <p>Ysbyty Enfys Bangor</p> <p>Mae swyddogion yn cael eu clustnodi i fonitro'r rhai sy'n cyrraedd am frechlyn ac yn mynd ati i'w cyfarch. Os bydd sefyllfa o ôl-groniad/ciw yn codi, bydd hyn yn cael ei uwchgyfeirio i arweinydd y safle am y dydd.</p> <p>Os bydd yr amseroedd aros yn fwy na 20 munud, bydd camau'n cael eu cymryd i gynyddu'r capasiti (lonydd brechu ychwanegol) hyd nes i'r amseroedd aros ostwng.</p> <p>Yn ogystal, mae system docynnau'n cael ei chyflwyno i archwilio'r gwir amser aros o gyrraedd i frechu. Mae hyn yn golygu rhoi slip o bapur gydag amser yr apwyntiad i rai o'r cleifion yn ystod y dydd. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno yn y man brechu ac yn ei gwneud hi'n bosibl cyfrifo'r gwir amser a arhoswyd.</p>	<p>Anwen Last</p> <p>Anwen Last Catrin Macey</p> <p>Catrin Macey</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Wythnos yn dechrau 19 Ebrill 2021</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i leihau'r amseroedd aros drwy gynyddu capasiti yn unol â'r uchod os oes angen.</p> <p>Bydd canlyniadau'r archwiliad yn cael eu llunio a'u hadolygu'n wythnosol.</p> <p>Mae'r niferoedd sydd heb fynychu'n cyfrannu'n sylweddol at y potensial am giwiau ac, felly, caiff cyfradd y niferoedd sydd heb fynychu eu monitro bob 2 awr o leiaf yn ystod y diwrnod ac mae system wrth gefn ar waith i ail-lenwi slotiau'r rhai sydd heb fynychu yn ystod y dydd i osgoi sefyllfa lle bydd llawer o gleifion ychwanegol yn cyrraedd ar ddiwedd y dydd.</p>	Anwen Last	Cwblhawyd

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ni nodwyd unrhyw welliannau yn yr adran hon.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am rotâu yn cael ei chyfleu'n	7.1 Y Gweithlu	<p>Ysbyty Enfys Glannau Dyfrdwy</p> <p>1. Byddwn yn trefnu cyfeiriad e-bost generig i staff Glannau Dyfrdwy a gwirfoddolwyr</p>	Thomas Halpin	30 Ebrill 2021
---	----------------	--	---------------	----------------

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>amserol ac yn dryloyw i'r staff sy'n gweithio yn y naill ganolfan brechu torfol a'r llall.</p>		<p>Glannau Dyfrdwy fel ffordd o fonitro a chynnal gwybodaeth. Bydd staff rheoli priodol yn gallu defnyddio outlook, a chyfrifoldeb y tîm ar ddyletswydd fydd hi i gadw golwg ac ymateb. Bydd hyn yn rhoi'r cyfleuster hefyd i anfon swp o negeseuon at grwpiau mawr a rhoi gwybodaeth am y rotâu.</p> <p>2. Hyd nes y gallwn ddarparu rhagolwg mwy datblygedig o'r brechlyn sydd ar gael, bydd oedi o ran darparu rota hirdymor. Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd wedi'u cynllunio gyda diweddariadau rota ar yr agenda. Mae'r cyfarfod tîm cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer dydd lau a bydd hyn yn digwydd yn rheolaidd o hynny ymlaen.</p> <p>3. Bwriadwn drefnu sesiynau goruchwylio gyda'r staff a chael eu dewisiadau o ran patrymau gweithio a byddwn yn ymdrechu i fodloni'r ceisiadau hyn lle mae'r ddarpariaeth gwasanaeth yn caniatáu. Bydd y staff yn cael gwybod am eu hawl i wyliau blynyddol a'r broses o ofyn am ddiwrnodau penodol o wyliau i sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith hyd nes y gallwn ddarparu rota gwell.</p>	<p>Stacey Jones</p> <p>Stacey Jones</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>30 Ebrill 2021</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Ysbyty Enfys Bangor</p> <p>Cafwyd heriau sy'n gysylltiedig â chyflenwad y brechlyn wrth lunio rota. Nod tîm yr uwch-nyrsys fydd darparu rota 4 wythnos i'r staff cyn unrhyw adeg benodol. Bydd y rotâu'n cael eu cyhoeddi bob wythnos. Pan fydd ansicrwydd ynghylch y diwrnodau gweithredu oherwydd cyflenwad y brechlyn, y safon ofynnol a dderbynnir i lunio'r rota fydd pythefnos o flaen llaw.</p> <p>Mae modd i'r staff nodi eu dewisiadau ar gyfer patrymau sifftiau/diwrnodau dewisol ar system EOL (Employee On Line) a lle bo'n bosibl, darperir ar gyfer y rhain o fewn y gofynion cyflwyno gwasanaeth.</p> <p>Mae grŵp WhatsApp ar waith ar gyfer holl aelodau staff y canolfannau brechu torfol i gefnogi'r cyfathrebu o ran y rota, sifftiau byr rybudd, gofynion cyflenwi ar gyfer absenoldeb salwch ac ati.</p>	<p>Catrin Macey</p> <p>Catrin Macey</p> <p>Catrin Macey</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Karen Evans ac Eleri Roberts

Swydd: Y Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol – Dwyrain. Arweinydd Brechu ar gyfer Ardal y Dwyrain ac Ardal y Gorllewin

Dyddiad: 15 Ebrill 2021